Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Plenydd

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Bro Plenydd yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch a chyflawniad disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad clir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae'r staff dysgu a chymorth yn modelu iaith yn fedrus iawn, sy'n cael effaith ar fedrau llafar y disgyblion.

Mae defnydd a balchder y disgyblion o ran y Gymraeg yn nodwedd gref ac maent yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn cynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol ac amrywiol i'r disgyblion. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion o'u hardal leol yn amlwg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar a darllen Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, nid yw medrau darllen Saesneg lleiafrif y disgyblion wedi datblygu'n llawn, yn enwedig eu gallu i ddarllen ar goedd a thrafod testun a llyfrau'n hyderus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyraeddiadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn dda iawn. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ffordd hynod effeithiol a chefnogol. O ganlyniad, mae disgyblion Ysgol Bro Plenydd yn hapus a diogel yn yr ysgol.

# Argymhellion

A1 Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu yn fwy annibynnol

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Plenydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 66 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 13 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 4.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 13.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 84.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 1995 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/02/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/05/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.